

# Mynegi cwyn, canmoliaeth neu sylw am MPTS

A fydddech gystal â defnyddio'r ffurflen hon er mwyn rhoi adborth i MPTS am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

## Rhan A: Eich manylion

Darparwch y wybodaeth ganlynol i'n helpu ni i ystyried ac ymateb yn briodol i'ch adborth. Mae rhoi'r manylion hyn i ni'n ddewisol, ond bydd unrhyw wybodaeth a ddarparwch yn ein helpu ni i wella'r ffordd rydym yn gweithio ac yn cael ei storio'n ddiogel.

Teitl (Mr, Mrs, Ms, Dr ac ati)

Enw llawn

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

Cyfeirnod y CMC (pan fo hynny'n berthnasol)

Cyfeirnod arall (os ydym wedi gofyn i chi ddyfynnu un yn flaenorol)

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?

Os ydych yn rhoi adborth ar ran rhywun arall, a fydddech gystal â nodi eu henw, eu manylion cyswllt, a'ch perthynas chi gyda nhw (e.e. partner, ffrind, eiriolwr)

Efallai y byddwn yn cysylltu â nhw er mwyn gofyn am eu caniatâd i gysylltu trwyddoch chi.

## B: Addasiadau rhesymol

Rydym wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. A fydddech gystal â defnyddio'r blwch isod er mwyn dweud wrthym os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch, fel cael y ffurflen hon neu wybodaeth am y weithdrefn gwyno mewn fformat amgen (e.e. print mawr). **Mae darparu'r wybodaeth hon yn ddewisol ac os dewiswch ddweud wrthym am unrhyw addasiadau rhesymol y mae arnoch eu hangen, bydd y wybodaeth hon yn cael ei storio'n ddiogel.**

## Rhan C: Eich adborth

**Ai cwyn/canmoliaeth neu sylw yw'ch adborth?**

**A fydddech chi'n dymuno cael ymateb i'ch adborth?**

**A fydddech gystal ag esbonio'r hyn yr ydych yn cysylltu â ni amdano, a'r hyn a ddigwyddodd? Yn eich barn chi, beth wnaethom ni o'i le / yn dda?**

## Rhan D: Eich disgwyliadau

**Beth hoffech i ni ei wneud gyda'ch adborth? Beth hoffech i ni ei wneud er mwyn unioni'r sefyllfa?**

**A ydych chi wedi cysylltu â MPTS am y mater hwn o'r blaen?**

Os cewch chi unrhyw broblemau'n defnyddio'r ffurflen hon neu os oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffurflen ei hun, anfonwch e-bost at [enquiries@mpts-uk.org](mailto:enquiries@mpts-uk.org).

## Datganiad Diogelu Data

Rydym yn ymrwmo i ofalu am eich gwybodaeth bersonol ac mae gennym bolisi preifatrwydd ar waith i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud hyn. Mae ein polisi preifatrwydd ar gael i'w weld ar wefan MPTS.

Bydd y wybodaeth a gesglir ar Rannau A a B y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i'n helpu ni i gyfathrebu'n effeithiol gyda chi ac i'n helpu ni i fodloni'ch anghenion cymorth unigol. Bydd yn cael ei thrin yn gyfrinachol yn ein sefydliad.

Yn ogystal, gallai'r wybodaeth a ddarparwch yn y ffurflen hon gael ei defnyddio, yn ddiennw, i lywio datblygiad ein gwasanaethau i'r dyfodol.